PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# POLISI A GWEITHDREFNAU APELIADAU AILRADDIO

| **Adolygwyd** | **Dyddiad** | **Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o’r Newid** | **Dyddiad Adolygu** |
|---|---|---|---|
| 1. | 2022 | Proses apelio cylch dyrchafiadau interim 2022 | Amh. |
| 2 | 2024 | Newidiadau cosmetig wedi'u gwneud – er enghraifft diweddaru terminoleg | Amh. |
| 3. | 2025 | Newidiadau cosmetig wedi'u gwneud – amlygu’r llwybr hunan-ymgeisio | Amh. |

| **Swyddog Polisi** | **Yr Uwch Swyddog sy’n Gyfrifol** | **Cymeradwywyd gan Bwy a'r Dyddiad** | **Asesu Effaith Cydraddoldeb a’r dyddiad** |
|---|---|---|---|
| Louise Shipton | Tracy Hibbert | | |

## Diben y Polisi

Gall unigolion sy’n aflwyddiannus wrth **hunan-ymgeisio** i gael eu hailraddio apelio yn erbyn y canlyniad, am resymau gweithdrefnol, a gofyn am adolygiad.

## Cwmpas

Mae’r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i’r holl staff sydd wedi **hunan-ymgeisio** i gael eu hailraddio a’u nod yw sicrhau y caiff pob aelod o’r staff y cyfle i apelio yn erbyn cais aflwyddiannus os ydynt o’r farn bod eu cais wedi bod o dan anfantais oherwydd methiannau gweithdrefnol.

## Cyfrifoldeb

Cyfrifoldeb y Prif Swyddog Pobl, sy’n adrodd i’r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Lles yw gweithredu, monitro ac adolygu’r Polisi hwn ar draws y Brifysgol.

Dirprwy Is-gangellorion / Penaethiaid Colegau, Penaethiaid Ysgolion a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol sy'n gyfrifol am weithredu'r Polisi yn y Colegau a'r Gwasanaethau Proffesiynol.

## Egwyddorion Craidd

- Mae staff sy'n gallu dangos iddynt fod o dan anfantais wrth **hunan-ymgeisio** am resymau gweithdrefnol yn gallu apelio yn erbyn y penderfyniad cychwynnol.
- Bydd y Brifysgol yn gweithredu proses benderfynu deg i ddatrys apeliadau’r staff.

# GWEITHDREFN AR GYFER APELIADAU AILRADDIO

## 1. AMSERLEN

Rhaid i unigolion sy’n gwneud cais am apêl gyflwyno eu hachos i’r adran Adnoddau Dynol o fewn 4 wythnos i dderbyn y canlyniad.

## 2. RHESWM DROS APELIO

Caiff unigolion apelio dim ond os ydynt yn credu:

- Nad yw’r weithdrefn gytunedig ar gyfer ystyried **ailraddio trwy hunan-ymgeisio** wedi cael ei chymhwyso'n gywir.

## 3. Y WEITHDREFN YMGEISIO

Wrth wneud cais am adolygiad, rhaid i’r apelydd ddarparu datganiad sy’n amlygu’n glir pa rai o’r gweithdrefnau ailraddio cytunedig na chawsant, yn eu barn nhw, eu cymhwyso’n gywir i’w hachos, ynghyd â manylion ynghylch pam y credant fod hynny’n wir.

Ni chaniateir cyflwyno tystiolaeth newydd, heblaw am y rhesymau gweithdrefnol, fel rhan o'r apêl.

## 4. Y PANEL

Dylai’r cydbwysedd rhwng y rhywiau ar y Paneli fod mor agos at 50% o ddynion a 50% o fenywod ag sy’n rhesymol bosibl.

Bydd y Panel Apeliadau yn cael ei wasanaethu gan Swyddog Adnoddau Dynol a bydd dadansoddwr rolau hyfforddedig yno yn cynorthwyo. Fel arfer bydd y panel yn cynnwys yr aelodau priodol canlynol:

- Cadeirydd annibynnol (aelod lleyg o’r Cyngor, neu Gadeirydd arall y cytunwyd yn ei gylch)
- 1 cynrychiolydd priodol ar ran y Rheolwyr
- 1 cynrychiolydd o’r Undebau Llafur

Cofiwch: Ni fydd y panel yn cynnwys unrhyw unigolion a fu'n aelodau o’r Panel Gwirio

Ni fydd y Panel Apêl yn ceisio gwerthuso barn broffesiynol y Panel Gwirio ond bydd yn ystyried a gafodd y gweithdrefnau cytunedig ar gyfer ailraddio eu cymhwyso'n gywir.

Ni fydd y Panel Apêl yn ystyried unrhyw dystiolaeth newydd a gyflwynir gan yr apelydd y tu hwnt i'r rhesymau gweithdrefnol.

## 5. HYSBYSU YNGHYLCH Y CANLYNIAD/ADBORTH

Bydd yr Adnoddau Dynol yn ysgrifennu at yr ymgeiswyr i'w hysbysu ynghylch canlyniad yr apêl.

Os caiff yr apêl ei chadarnhau caiff eich achos ei gyfeirio at y panel cychwynnol a fydd yn asesu effaith y rheswm dros y penderfyniad ynghylch y canlyniad ailraddio cychwynnol.

## 6. DIOGELU DATA

Caiff y papurau cefndirol a'r adroddiadau sy'n ymwneud â cheisiadau am ddyrchafiadau eu cadw'n ganolog yn yr adran Adnoddau Dynol, ac yn unol â'r Rheoliad Ddiogelu Data Cyffredinol.